

DINAS A SIR ABERTAW

CÔD YMARFER

1. Cyflwyniad

Mae Dinas a Sir Abertawe wedi gosod system ddiogelwch CCTV er mwyn helpu i greu amgylchedd mwy diogel er lles y gymuned. Mae camerâu wedi'u gosod yn ninas Abertawe mewn ardaloedd siopa a masnachol, meysydd parcio ac adeiladau'r cyngor. Mae'r system yn cael ei monitro ddydd a nos 365 niwrnod y flwyddyn mewn ystafell reoli ganolog.

Dinas a Sir Abertawe, Neuadd y Sir, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN sy'n berchen ar y system a gweithwyr hyfforddedig Dinas a Sir Abertawe sy'n staffio'r ystafell reoli.

Dangosir lleoliadau'r camerâu presennol mewn atodiad i'r codau hyn; ychwanegir unrhyw gamerau newydd yn ôl yr angen.

Mae'r gwasanaeth wedi'i ddatblygu a'i reoli gan y Bartneriaeth Abertawe Fwy Diogel. Mae monitor wedi'i osod yng Ngorsaf Heddlu Ganolog Abertawe, Grove Place, Abertawe, a fydd yn galluogi'r Heddlu i gadw golwg pan fo staff yr ystafell reoli'n rhoi gwybod am ddigwyddiad. Mae Ystafell Adolygu hefyd wedi'i gosod yn yr Orsaf Heddlu Ganolog a fydd yn galluogi swyddogion awdurdodedig i weld fideos wedi'u recordio cyn gofyn i'r ystafell reoli am dystiolaeth. Bydd Heddlu De Cymru'n darparu DVDs sydd wedi'u labelu ymlaen llaw ac yn arddangos labeli drwy gydol y flwyddyn at ddibenion dystiolaeth. Fodd bynnag, bydd perchenogaeth a hawlfraint y deunydd wedi'i recordio'n aros yn nwylo'r cyngor. Bydd yr Heddlu hefyd yn darparu gyriant caled allanol pan fo angen fel a bennir yn y protocol CCTV.

Mae'r cyngor yn croesawu cyfraniad sefydliadau lleol eraill fel partneriaid yn y gwasanaeth CCTV.

Pennaeth Tlodi a'i Atal sy'n gyfrifol i'r cyngor am reoli'r system yn gyffredinol.

Mae'r Côt Ymarfer hwn wedi'i lunio ar y cyd gan y cyngor a Heddlu De Cymru. Bwriedir iddo ddarparu rheolau ar gyfer rheolwyr a gweithredwyr y system. Mae hefyd yn ymrwymiad i bobl y rhanbarth y bydd y system yn cael ei gweithredu'n gyfrifol ac yn ystyried hawliau sifil a diogelu data'n briodol.

Llofnodwyd.....

Pennaeth Tlodi a'i Atal

Llofnod

Prif Arolygydd - Heddlu De Cymru

Datganiad o Ddiben

Prif ddiben y gwasanaeth yw darparu amgylchedd mwy diogel er lles y rhai sy'n byw, yn masnachu neu'n gweithio yn y rhanbarth, yn ogystal ag ymwelwyr. Bwriad y gwasanaeth yw:

- Helpu i leihau ofn troseddu;
- Helpu i atal troseddu;
- Helpu i ddatgelu troseddu a rhoi tystiolaeth ar gyfer achosion llys;
- Cynorthwyo'r broses gyffredinol o reoli iechyd a diogelwch y cyhoedd;
- Gwella diogelwch cymunedol, cynorthwyo wrth ddatblygu lles economaidd y ddinas ac annog mwy o ddefnydd o ganol trefi, ardaloedd siopa, meysydd parcio a lleoliadau tebyg yn y rhanbarth;
- Cynorthwyo wrth reoli traffig. Gellir defnyddio'r system i wneud y gorau o adnoddau'r cyngor wrth reoli a gweithredu ei wasanaethau. Gellir hefyd ei defnyddio mewn rhai amgylchiadau fel tystiolaeth wrth ymchwilio i faterion mewnol y cyngor, fel disgyblaeth staff, etc.

Bydd lleoliadau'r camerâu'n cael eu nodi'n glir. Ni ddefnyddir y system i gasglu gwybodaeth am bobl sy'n ymddwyn yn gyfreithlon.

Amcanion Allweddol

Bu cwmp sylweddol o ran categorïau penodol o droseddu mewn ardaloedd lle ceir camerâu eisoes. Yn yr ardaloedd hyn, y prif amcan yw cynnal troseddu ar y lefel lai, o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol, ar gyfer: byrgleriaeth, troseddau cerbydau modur ac ymosodiadau.

Amcan y cynlluniau ar gyfer ardaloedd newydd yw lleihau rhai neu bob un o'r troseddau canlynol yn sylweddol, gan ddibynnu ar gwmpas a natur y cynllun:

Lladrad	50%
Troseddau cerbydau modur	50%
Difrod troseddol	25%
Anhrefn gyhoeddus	25%

Cymerir yr wybodaeth am ffigurau troseddu o ystadegau troseddu swyddogol yr Heddlu. Adolygir yr amcanion allweddol bob 12 mis a nodir y manylion mewn adroddiad blynyddol.

2. Llawlyfr Gweithdrefnol

Bydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe'n cyhoeddi llawlyfr ar wahân, yn seiliedig ar y côd ymarfer, i nodi'r gweithdrefnau gweithredu manwl. Cyfyngir mynediad i'r ddogfen i'r partneriaid ac aelodau o staff yn unig. Fel arfer, cedwir y llawlyfr mewn cabinet diogel.

3. Diogelu Data

Mae Deddf Diogelu Data 1998 bellach yn berthnasol i system CCTV Abertawe a bydd y cyngor ac unrhyw bartneriaid presennol, neu rai'r dyfodol, yn gweithredu'n unol â'r Ddeddf hon, lle bo'n bosib.

4. Newidiadau i'r Côd

O bryd i'w gilydd, bydd angen adolygu a diwygio'r côd ymarfer. Bydd rheolwr y system yn rhoi mân newidiadau a nodir wrth weithredu ar waith. Bydd angen i bwyllgor perthnasol y cyngor gytuno'n ffurfiol ar unrhyw newid mawr mewn sesiwn agored o'r pwyllgor, ar ôl ymgynghori â Heddlu De Cymru.

5. Perchnogaeth

Dinas a Sir Abertawe sy'n berchen ar y system CCTV. Mae Pennaeth Tlodi a'i Atal yn gyfrifol, ar ran y cyngor, am reoli, gweinyddu a diogelwch y system. Bydd Pennaeth Tlodi a'i Atal yn enwebu uwch-swyddog, fel rheolwr y system CCTV, i weithredu ar ei ran gydag awdurdod llawn yn ei absenoldeb.

6. Partneriaethau

Er bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe'n berchen ar y system, mae'n cydnabod rôl Heddlu De Cymru (Ardal Cyngor Dinas a Sir Abertawe) fel partner allweddol yn y gwasanaeth cyffredinol.

Wrth ddatblygu'r system, mae'r cyngor hefyd wedi'i gefnogi gan gyrff lleol, yn enwedig y Siambr Masnach a busnesau lleol.

Mae'r cyngor yn awyddus i ddatblygu trefniadau tymor hir gyda chyrff lleol eraill a gellir cynnig gwasanaeth CCTV canolog i gyd-fynd â gofynion diogelwch sefydliadau unigol o'r sector cyhoeddus neu'r sector preifat.

Bydd rhaid i bob partner, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gydymffurfio'n llwyr â'r côd. Ni fydd y partneriaid yn cymryd rhan wrth weithredu'r system, ac eithrio'r Heddlu, a all, dan yr amgylchiadau arbennig a nodir yn y côd hwn, gyfarwyddo staff yr ystafell reoli wrth fonitro trosedd neu ddigwyddiad arbennig. Bydd mynediad i'r ystafell reoli a defnyddio DVDs yn cydymffurfio'n llwyr â'r côd ymarfer hwn.

7. Rheoli'r System

Rheoli Cyffredinol

Pennaeth Tlodi a'i Atal Cyngor Dinas a Sir Abertawe sy'n gyfrifol i'r cyngor am reoli'r system yn gyffredinol. Mae wedi enwebu rheolwr y system CCTV i weithredu yn ei absenoldeb ac ymdrin â materion arferol sy'n gysylltiedig â rheoli a gweinyddu'r system gyffredinol.

Bydd Pennaeth Tlodi a'i Atal Cyngor Dinas a Sir Abertawe a'i swyddog enwebedig yn gyfrifol am adrodd i'r cyngor a darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am y cynllun. Byddant hefyd yn llunio adroddiad blynyddol a fydd ar gael ym mhob swyddfa a llyfrgell gyhoeddus leol.

Mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi contractio'r gwaith o fonitro o ddydd i ddydd. Yr unigolion a chanddynt gyfrifoldebau uniongyrchol am staff yr ystafell reoli yw rheolwr y system a Phennaeth Tlodi a'i Atal Cyngor Dinas a Sir Abertawe. Mae'n rhaid i'r holl staff sy'n rhan o'r gwasanaeth CCTV, boed mewn rôl reoli neu weithredol, gydymffurfio'n llwyr â'r côd ymarfer hwn.

Bydd pob rheolwr a gweithredwr yn gweithio'n unol â'r gweithdrefnau a nodir gan y cyngor a'r Pennaeth Tlodi a'i Atal.

Bydd Heddlu De Cymru'n enwebu swyddogion o Orsaf Heddlu Ganolog Abertawe i gysylltu â'r cyngor, at ddibenion beunyddiol.

Mae pob rheolwr, goruchwyliwr a gweithredwr yn atebol am ei weithredoedd ei hun. Caiff unrhyw achos o dorri'r côd ymarfer hwn gan unrhyw aelod o staff ei drin fel mater disgyblu.

Cwynion

Ymdrinnir ag unrhyw gwynion sy'n ymwneud â'r system CCTV drwy weithdrefn gwyno arferol Cyngor Dinas a Sir Abertawe.

8. Gosod

8.1 Ymgynghori

Mae'n rhaid ymgynghori'n gynnar â'r Heddlu ar unrhyw gynnig newydd am osod camerâu newydd neu symud camerâu presennol yn sylweddol. Pan fo'n bosib, dylid ymgynghori'n effeithiol â busnesau lleol a'r gymuned leol.

8.2 Sain

Bydd y system CCTV yn cynnig lluniau'n unig ac ni fydd yn gallu recordio sain.

9. Atebolrwydd

9.1 Y Cyhoedd

Bydd y cyngor, drwy Bennaeth Tlodi a'i Atal Cyngor Dinas a Sir Abertawe, yn sicrhau bod copïau o'r côd ymarfer a manylion y weithdrefn gwyno ar gael i'r cyhoedd. Dosberthir copïau i swyddfeydd a llyfrgelloedd cyhoeddus yn y rhanbarth.

9.2 Y Cyngor

Bydd rhaid adrodd am unrhyw newidiadau sylweddol i'r broses o reoli'r gwasanaeth CCTV yn strategol i Is-bwyllgor Diogelwch a Datblygu Cymunedol y cyngor i'w cymeradwyo. Yna bydd rhaid i'r cyngor gadarnhau'r newidiadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- a. Mabwysiadu Côd Ymarfer CCTV;
- b. Unrhyw newid mawr i'r côd;
- c. Gosod amcanion;
- ch. Gosodiadau newydd; a
- d. Threfniadau partneriaeth newydd arfaethedig.

Cyflwynir yr adroddiad blynyddol yn ffurfiol i'r Pwyllgor Polisiâu a bydd copïau ar gael mewn swyddfeydd cyhoeddus.

9.3 Yr Heddlu

Bydd Heddlu De Cymru'n ymrwmo'n ffurfiol i gydymffurfio â'r côd ymarfer. Bydd yr Heddlu'n cynorthwyo Cyngor Dinas a Sir Abertawe wrth asesu gosodiadau newydd a chyflwyno ystadegau troseddu ar gyfer yr adroddiadau blynyddol ac adroddiadau eraill.

9.4 Partneriaethau

Ceir cytundebau partneriaeth lleol pan fo systemau CCTV trydydd parti am ymuno â chynllun Cyngor Dinas a Sir Abertawe. Bydd cytundebau o'r fath yn cynnwys y pynciau canlynol:

- Derbyn y côd ymarfer;
- Prif amcanion y cynllun mewn lleoliad penodol;
- Y dulliau gweithredol i'w defnyddio yn y lleoliad penodol;
- Dulliau o dderbyn adroddiadau rheolaidd o fewn y bartneriaeth am faterion sy'n berthnasol i'r côd ymarfer a rheoli'r cynllun;
- Dulliau diogelu o ran gweithrediadau'r Heddlu.

10. Gwybodaeth i'r Cyhoedd

10.1 Arwyddion

Ni fydd unrhyw gamerâu'n cael eu cuddio'n fwriadol o olwg y cyhoedd. Bydd arwyddion yn nodi bod camerâu CCTV ar waith yn cael eu harddangos mewn mannau allweddol yn yr ardaloedd dan sylw. Bydd yr arwyddion yn datgan bod y cyngor yn berchen ar y camerâu ac yn cynnwys rhif ffôn cyswllt yng Nghyngor Dinas a Sir Abertawe.

10.2 Dogfennau Cyhoeddus

Mae'r côd ymarfer a'r adroddiadau blynyddol yn ddogfennau cyhoeddus a byddant ar gael i'w harchwilio mewn llyfrgelloedd a swyddfeydd cyhoeddus eraill.

Bydd yr adroddiad blynyddol yn cynnwys manylion perchenogaeth y cynllun, y cwmpas, y costau, yr amcanion, unrhyw werthusiad a manylion cwynion.

Bydd y cyngor yn annog y wasg leol i gyhoeddi manylion yr adroddiad blynyddol.

10.3 Cwynion

Mae'r cyngor wedi sefydlu gweithdrefn ar gyfer derbyn a monitro cwynion gan y cyhoedd. Mae ffurflenni cwyno ar gael yn holl swyddfeydd y cyngor. Cyfeirir unrhyw gŵyn sy'n gysylltiedig â'r system CCTV at Swyddog Cwynion Corfforaethol Cyngor Dinas a Sir Abertawe. Gall unrhyw achwynydd sy'n anfodlon ar yr ymateb ofyn i Brif Weithredwr y cyngor ymdrin â'r mater. Ceir crynodeb o gwynion, a chanlyniad unrhyw ymchwiliad, yn yr adroddiad blynyddol.

11. Rheoli a Gweithredu Camerâu

Gosodir pob camera'n amlwg yng ngolwg y cyhoedd.

Dim ond y staff sy'n gyfrifol am ddefnyddio'r cyfarpar fydd yn cael mynediad i'r rheolyddion gweithredu.

Pan fo'n bosib, gosodir camerâu i gynnig yr olwg orau o'r ardal. Ni chaniateir ymyrryd ag eiddo preifat a gwneir gwiriadau ar hap i sicrhau na thramgwyddir preifatrwydd cyhoeddus. Ystyrir unrhyw dramgwydd yn gamarfer difrifol.

Bydd recordiadau'n destun archwiliad ar hap gan Bennaeth Tlodi a'i Atal Cyngor Dinas a Sir Abertawe neu ei gynrychiolydd, a gellir gofyn i weithredwyr gyfiawnhau unrhyw oruchwyliaeth hir o unigolyn neu eiddo.

12. Yr Ystafell Reoli

12.1 Mynediad

Bydd drws yr ystafell reoli'n yn cael ei ddiogelu ar bob adeg. Cyfyngir mynediad i'r ystafell reoli CCTV i'r gweithredwyr ar ddyletswydd, personél awdurdodedig y cyngor, yr Heddlu a swyddogion gwasanaethau statudol eraill. Caniateir mynediad i bobl awdurdodedig yn unig. Bydd angen y rhai sydd heb eu henwi'n unigol gael awdurdod ysgrifenedig neu lofnod gan reolwr y system. Mae'n rhaid i weithredwyr fod yn sicr o hunaniaeth unrhyw ymwelydd a diben yr ymweliad cyn caniatáu iddo gael mynediad. Cedwir cofnod mynediad o bawb sy'n dod i'r ystafell reoli.

Bydd trefniadau arbennig yn berthnasol i fynediad gan contractwyr, at ddibenion cynnal a chadw'r system, glanhau'r swyddfa neu ymdrin ag argyfwng. Dan yr amgylchiadau hyn, mae'n rhaid i'r gweithredwr ar ddyletswydd fod yn sicr o hunaniaeth a diben yr ymwelydd cyn caniatáu mynediad.

Mae'n rhaid cymeradwyo a threfnu pob ymweliad swyddogol â'r ystafell reoli drwy reolwr y system, neu Bennaeth Tlodi a'i Atal Cyngor Dinas a Sir Abertawe.

Mae'n rhaid i'r holl ymwelwyr, gan gynnwys contractwyr, fod yng nghwmni staff gweithredu drwy gydol eu harhosiad yn yr ystafell reoli. Mae rhestr o swyddogion Cyngor Dinas a Sir Abertawe â chyfrifoldebau rheoli'r system, fel a nodir yn Adran 7. Bydd y rhain yn cael mynediad diderfyn ar bob adeg ac atodir eu henwau i'r codau hyn.

Gall arolygwyr annibynnol, a benodir gan Bwyllgor Polisiâu'r cyngor dan y côd hwn, ymweld â'r ystafell reoli heb apwyntiad ymlaen llaw. Bydd Pennaeth Tlodi a'i Atal Cyngor Dinas a Sir Abertawe neu ei swyddog enwebedig yn dod gyda hwy.

Trefnir mynediad gan swyddogion yr Heddlu ymlaen llaw.

Bydd rhaid caniatáu i'r staff glanhau gael mynediad. Bydd Rheolwr Gwasanaethau'r Swyddfa'n sicrhau bod contractwyr yn deall bod ganddynt fynediad i'r ystafell reoli at ddiben glanhau'n unig a bod rhaid iddynt adael yr ystafell ar unwaith os gofynnir iddynt wneud hynny gan y gweithredwr ar ddyletswydd.

12.2 Cofnod Achosion

Mae'n rhaid cynnal cofnod achosion shifftiau i gofnodi manylion pob digwyddiad yn yr ystafell reoli, gan gynnwys amserau a dyddiadau digwyddiadau a manylion ymweliad a galwadau ffôn. Bydd y gweithredwr yn cadarnhau effeithlonrwydd y system drwy brofi pob camera ar ddechrau pob shifft a llofnodi'r cofnod yn briodol. Adroddir am unrhyw ddiffygion. Bydd y cysylltiad â Gorsaf yr Heddlu hefyd yn cael ei brofi.

12.3 Cofnod Digwyddiadau

Bydd Cofnod Digwyddiadau'n cofnodi manylion cryno pob digwyddiad y mae'r system gamerâu'n ei gofnodi. Bydd manylion yn cynnwys dyddiad, amser, lleoliad, rhif y camera, disgrifiad o'r digwyddiad, dyddiad y copi gweithio o'r DVD a'r person sy'n casglu'r copi hwnnw, y camau gweithredu a gymerir, y canlyniad a rhif y DVD. Bydd y gweithredwr yn cwblhau'r manylion hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y digwyddiad.

12.4 Cofnod Adolygiadau

Pryd bynnag y bo angen adolygiad HDR, bydd y gweithredwr yn cwblhau'r Cofnod Adolygiadau. Bydd manylion yn cynnwys dyddiad y cais, manylion y digwyddiad, rhif y DVD, rhif yr adolygiad a phob person sy'n gwyllo'r DVD.

12.5 Cofnod Argraffiadau Copi Caled (Gweler 14.6)

12.6 Cofnod Cynnal a Chadw a Gwaith Atgyweirio

Bydd y gweithredwr yn cwblhau hwn pan geir nam neu pan geir ymweliad gwasanaethu gan gontractwr. Bydd hwn yn cynnwys yr amser a'r dyddiad y caiff y nam ei atgyweirio.

13. **Staff**

13.1 Recriwtio a Dethol

Mae'n rhaid i bawb sy'n gweithio mewn unrhyw ran o'r ystafell reoli CCTV fodloni safonau uchel o onestrwydd. Bydd recriwtio a dethol staff yn cynnwys proses drylwyr o ddilysu addasrwydd ymgeiswyr i weithio mewn ystafell reoli CCTV. Bydd rhaid i ymgeiswyr ddatgelu euogfarnau troseddol perthnasol. Bydd peidio â datgelu gwybodaeth berthnasol yn destun camau disgyblu, gan gynnwys y posibilrwydd o ddiswyddo, os daw i'r amlwg ar ôl penodi rhywun.

13.2 Hyfforddiant

Er mwyn gweithredu'r system yn effeithiol, mae'n rhaid i weithredwyr CCTV gael ei hyfforddi'n gywir. Bydd rhaglen hyfforddi barhaus gydnabyddedig yn un o'r amodau gwasanaeth.

Pan fo cyrsiau Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) ar gael i ymdrin â gofynion gweithredol CCTV, disgwylir i'r staff enwebedig gymryd rhan yn y cyfryw gyrsiau.

13.2. Cyfrinachedd

Bydd yr holl staff yn destun amodau cyflogaeth sy'n mynnu eu bod yn cydymffurfio â'r côd ymarfer a chyfrinachedd. Gallai torri'r côd arwain at gamau disgyblu a'r

posibilrwydd o ddiswyddo.

Bydd rhaid i aelodau o staff lofnodi ymrwymiad o gyfrinachedd a pharchu cyfrinachedd yn ystod eu cyflogaeth ac ar ôl iddi ddod i ben.

14. Deunydd wedi'i Recordio

14.1 Datganiad o Fwriad

Defnyddir deunydd wedi'i recordio at y dibenion a ddiffinnir yn y côd ymarfer hwn yn unig. Ceir mynediad i ddeunydd wedi'i recordio fel a ddiffinnir yn y côd ymarfer hwn yn unig. Ni fydd deunydd wedi'i recordio yn cael ei werthu na'i ddefnyddio at ddibenion masnachol nag adloniant.

Bydd dangos deunydd wedi'i recordio (DVD neu HDR) i'r cyhoedd yn cael ei reoleiddio'n llym. Bydd achos o'r fath yn cydymffurfio â'r Datganiad o Ddiben yn 2.1. Os bydd angen ar yr Heddlu i ddeunydd gael ei ddangos mewn cysylltiad ag ymchwiliad i drosedd, gwneir hynny yn unol â darpariaethau Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. Bydd amgylchiadau eraill, sef ymchwiliadau i bobl sydd ar goll, mentrau hyfforddiant dethol yr Heddlu, neu wrth gynorthwyo ymchwiliad gwirioneddol gan yr Heddlu. Beth bynnag y bo'r achos, caiff dangos y deunydd ei oruchwyllo'n llym, ei awdurdodi drwy'r ffurflen awdurdodi CCTV, a bydd Pennaeth Tlodi a'i Atal neu ei ddirprwy enwebedig yn cytuno iddo.

14.2 Defnyddio DVDs

Bydd cyfarpar recordio'n cael ei wirio ar ddechrau pob shiftt er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n dda.

Mae'r system bresennol yn defnyddio recordyddion gyriant caled (HDR) sy'n recordio delweddau am hyd at 28 niwrnod cyn recordio drostynt yn awtomatig. Ar ôl i gais gael ei gyflwyno am recordiad, fe'i cedwir mewn ffolder am 90 niwrnod cyn cael ei ddileu.

Fel arfer, cynhelir adolygiadau HDR gan weithredwr CCTV yn ystod cyfnodau tawel yn unig. Disgwylir i'r Heddlu adolygu HDR pan adroddir am drosedd. Mae'n rhaid cofnodi manylion ceisiadau am adolygiadau HDR yn y cofnod adolygiadau.

14.3 Mynediad yr Heddlu

Gall yr Heddlu gyflwyno cais i wyllo HDR yn yr ystafell reoli, neu fynd ag ef oddi yno, ar yr amod y cydymffurfir â'r gweithdrefnau cytunedig a nodir yn y codau hyn. Mae'n rhaid iddynt gredu'n rhesymol bod mynediad i HDR penodol yn angenrheidiol yn ystod ymchwiliad ac/neu er mwyn datgelu trosedd arbennig, neu atal troseddu.

Bydd deunydd HDR yn cael ei adolygu yn yr ystafell reoli gan swyddogion Heddlu De Cymru. Dylid gohirio camau o'r fath pe bai digwyddiadau gweithredol yn gofyn am gamau gan y gweithredwr. Mae'n rhaid cyflwyno unrhyw gais i wyllo HDR yn ystafell reoli'r cyngor yn ysgrifenedig a'i gofnodi yn y Cofnod Adolygiadau.

Ni wneir copïau o unrhyw DVD. Mae'n rhaid i'r Heddlu roi rhif B56 wrth gasglu DVD. Gellir ystyried copïo tapiau heb awdurdod i fod yn gamarfer difrifol. Os bydd yr Heddlu'n rhoi hysbysiad ffurfiol bod angen DVD at ddibenion tystiolaeth, yna fe'i cedwir am gyfnod priodol. Bydd rhaid i Swyddog Cyswllt yr Heddlu gadarnhau'n rheolaidd fod angen i'r Heddlu cadw'r DVD.

Ystyrir unrhyw DVD sy'n cael ei greu at ddibenion tystiolaeth fel y prif gopi. Os y'i rhoddir i'r Heddlu neu unrhyw awdurdod arall, mae'n rhaid llenwi'r Cofnod Copïau DVD, gwneud cofnod a chael llofnod y derbynnydd. Pan fydd y DVD ym meddiant yr Heddlu, bydd yn destun polisïau a rheolau'r Prif Gwnstabl.

14.4 Ceisiadau am Fynediad

Os bydd person yn gofyn am adolygiad neu gopi o DVD, bydd rhaid cyflwyno'r cais yn ysgrifenedig a chynnwys amser, dyddiad, lleoliad a disgrifiad o'r digwyddiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef a'r rheswm dros wneud y cais hwnnw. Os ceir bod unrhyw ran o'r adran hon yn torri Deddf Diogelu Data 1998, bydd gofynion y Ddeddf Diogelu Data'n berthnasol. Yna newidir yr adran berthnasol o'r codau ymarfer hyn i sicrhau y cydymffurfir â'r Ddeddf.

14.4.1 Achosion Llys Sifil

Gellir cael mynediad i DVD mewn cysylltiad ag anghydfodau sifil drwy orchymyn llys.

14.4.2 Achosion Llys Troseddol

Bydd yr Heddlu'n cynnig mynediad i gyfreithwyr dan reolau datgelu ymlaen llaw mewn cysylltiad ag achosion troseddol. Bydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe'n cadw'r hawlfraint.

Os yw'r digwyddiad wedi'i gopi neu ei drosglwyddo i'r Heddlu, cyfeirir y person at yr orsaf Heddlu berthnasol i gael copi o'r DVD neu ofyn am adolygiad o'r DVD gan yr Heddlu.

14.5.3 Achosion Llys Troseddol

Mewn achos lle nad adroddwyd am y digwyddiad, ac nid yw wedi'i gopïo, i'r Heddlu. Mae'n rhaid cyflwyno cais i adolygu DVD, neu dderbyn copi ohono, yn ysgrifenedig fel a ddangoswyd eisoes. Dilynir y gweithdrefnau ar gyfer Ceisiadau am Fynediad fel yn Adran 14.4.

14.5.4 Achosion Llys Troseddol

Mewn achos lle adroddwyd am y digwyddiad, ac mae wedi'i gopïo, i'r Heddlu. Mae'r person yn gofyn am adolygiad a/neu gopi o'r deunydd HDR yn ogystal â'r hyn a gyflwynwyd i'r Heddlu. Dilynir y weithdrefn ar gyfer Ceisiadau am Fynediad fel yn Adran 14.4.

14.6 Argraffiadau Copi Caled

Nid oes gan y system bresennol y cyfleuster i ddarparu argraffiadau copi caled.

15. Asesu'r System

15.1 Gwerthusiad

Gwerthusir y system CCTV i gael gwybod a yw'r amcanion allweddol yn cael eu cyflawni, a yw'r cynllun yn gweithredu'n unol â'r dibenion y'i sefydlwyd ar eu cyfer ac a yw'n rhoi gwerth am arian. Bydd costau gwerthusiad yn cael eu cynnwys yng nghyllideb referniw flynyddol y cyngor ar gyfer y gwasanaeth CCTV. Cynhelir y gwerthusiad yn annibynnol neu'n unol â meini prawf a bennir yn annibynnol. Dylai gynnwys y canlynol:

- Asesiad o effaith ar droseddu
- Asesiad o ardaloedd cyfagos heb CCTV;
- Barn y cyhoedd;
- Gweithrediad y côd ymarfer; ac
- A yw'r dibenion y sefydlwyd y cynllun ar eu cyfer yn dal i fodoli.

Adroddir am ganlyniadau'r gwerthusiad i Is-Bwyllgor Diogelwch a Datblygu Cymunedol y cyngor a thrwy hynny bydd yn ddogfen gyhoeddus. Ceir crynodeb o fanylion yn yr adroddiad blynyddol, a fydd ar gael i'w archwilio mewn llyfrgelloedd a swyddfeydd cyhoeddus eraill yn y rhanbarth (gweler 10.2). Ystyrir canlyniadau ac argymhellion y gwerthusiad mewn adolygiadau achlysurol o'r modd y caiff y gwasanaeth ei weithredu a'i reoli.

15.2 Monitro

Bydd Pennaeth Tlodi a'i Atal Cyngor Dinas a Sir Abertawe'n gyfrifol am sicrhau bod holl bersonél yr ystafell reoli'n ymwybodol o ofynion y côd a'r gweithdrefnau gweithredol. Bydd yn gyfrifol am drefnu gwiriadau rheolaidd o'r holl gyfarpar, cofnodion a deunydd HDR, er mwyn sicrhau y glynir wrth y côd a'r gweithdrefnau gweithredol ac y cynhelir diogelwch cyfarpar a deunydd wedi'i recordio.

15.3 Archwiliad

Mae gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â gweithrediad y cynllun, y côd ymarfer a defnyddio deunydd HDR yn destun archwiliad blynyddol, i'w drefnu gan Bennaeth Tlodi a'i Atal Cyngor Dinas a Sir Abertawe neu ei ddirprwy enwebedig. Bydd rhaid i unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r archwiliad fynd gerbon pwyllgor.

15.4 Arolygiad Annibynnol

Bydd rheoli a gweithredu'r gwasanaeth CCTV yn agored i arolygu annibynnol. Gall y cyngor, ar unrhyw adeg, enwebu is-bwyllgor sy'n cynnwys aelodau ac ymwelwyr lleyg cyfetholedig, os oes angen, i gynnal arolygiad. Cyflwynir adroddiad am ganlyniad yr arolygiad i'r Is-bwyllgor Diogelwch a Datblygu Cymunedol.

Disgwylir i bawb sy'n cymryd rhan yn yr arolygiadau barchu cyfrinachedd a chydymffurfio â'r côd ymarfer.

16. **Ymdrin â Digwyddiadau**

16.1 Defnydd yr Heddlu o'r System

Dylid cynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng Pennaeth Tlodi a'i Atal Cyngor Dinas a Sir Abertawe a'i gynrychiolwyr, yr Heddlu lleol a'r gweithredwyr, pan fo'n briodol, i sicrhau yr ymdrinnir â phroblemau'n brydlon. Bydd Pennaeth Tlodi a'i Atal a chynrychiolydd enwebedig yr Heddlu'n cytuno ar amllder cyfarfodydd o'r fath.

Pan fydd y gweithredwyr yn nodi digwyddiad amheus, adroddir amdano ar unwaith i'r Heddlu drwy linell ffôn uniongyrchol i ystafell reoli'r Heddlu. Drwy gytundeb rhwng y gweithredwr a'r Heddlu, gellir darlledu lluniau byw drwy'r cysylltiad fideo â monitor yn ystafell reoli'r Heddlu.

Bydd y gweithredwr sy'n monitro'r digwyddiad, a fydd yn darparu'r dystiolaeth orau sydd ar gael ar yr adeg honno, yn sicrhau y bydd y digwyddiad yn cael ei recordio.

Bydd y gweithredwr CCTV yn parhau i reoli'r system, ond gall yr Heddlu gyfarwyddo'r gweithredwr i gyflawni dyletswyddau penodol er mwyn:

- Eu cynorthwyo gyda defnyddio adnoddau;
- Monitro unrhyw anrhefn gyhoeddus bosib neu broblemau diogelwch mawr eraill;
- Cynorthwyo wrth ddatgelu troseddu; a
- Hwyluso'r broses o ddal ac erlyn troseddwr mewn cysylltiad â throseddu ac anhrefn gyhoeddus.